# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**Dyddiad: 29 Mehefin 2009**
**Amser: 16.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

## Adroddiad (SLC(3) 17-09)

### Cynnwys

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 29 Mehefin 2009. Roedd yr Aelodau o'r Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, David Melding AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AC.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC300 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 15 Mehefin 2009. Fe'i gosodwyd ar 17 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 17 Gorffennaf 2009.

SLC301 - Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 16 Mehefin 2009. Fe'i gosodwyd ar 18 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 15 Gorffennaf 2009.

SLC302 - Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 18 Mehefin 2009. Fe'i gosodwyd ar 19 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 1 Hydref 2009.

SLC303 - Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 18 Mehefin 2009. Fe'i gosodwyd ar 19 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 15 Gorffennaf 2009.

### Busnes arall

### Y Mesur Morol a Mynediad i'r Arfordir

Trafododd yr Aelodau'r briff cyfreithiol ar y Mesur Morol a Mynediad i'r Arfordir.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau y bydd Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2009.

### Y Mesur Cydraddoldeb

Trafododd yr Aelodau'r briff cyfreithiol ar y Mesur Cydraddoldeb. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau y bydd Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2009.

### Confensiwn Cymru Gyfan

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau iddi roi tystiolaeth i'r Confensiwn Cymru Gyfan ar 25 Mehefin 2009.

### Y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau y cafodd adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) ei gyflwyno ar 24 Mehefin 2009. Nododd y Cadeirydd hefyd, ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno, y cafodd gopi o lythyr a ysgrifennodd Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau at Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3, lle y cyfeiriodd y Gweinidog at rai o'r materion a godwyd gan y Pwyllgor.

### Y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Cymdeithasol (Cymru)

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau y cafodd y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Cymdeithasol ei gyflwyno ar 29 Mehefin 2009. Cytunodd yr Aelodau i graffu ar y Mesur arfaethedig ac i wahodd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, i'r cyfarfod cyntaf ar ôl toriad yr haf - 23 Medi 2009.

**Janet Ryder AC**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**29 Mehefin 2009**